Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Penodi Aelodau

Dyddiad cau: 1 Chwefror 2021

Cynnwys

Gwneud Cais

Atodiad A: Rôl y Cadeirydd / Aelodau

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Atodiad C: Y broses ddethol

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y broses benodi hon ar gyfer Aelodau i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg. Rydym yn gobeithio penodi chwe aelod i ymuno â'r chwech sydd eisoes ar y Cyngor. Os bydd mwy na chwe ymgeisydd yn gymwys i gael eu penodi, mae'n bosibl y byddwn yn cadw manylion yr ymgeiswyr cymwys nas penodir ar restr wrth gefn am hyd at 12 mis.

Bydd Aelodau yn cyfrannu at weithredu strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, drwy gynghori a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiadau amgaeedig yn rhoi manylion ynghylch rôl yr Aelodau a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor Partneriaeth a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

Yno, cliciwch ar y swydd ("Aelodau Cyngor Partneriaeth y Gymraeg") ac yna dewis y botwm "Gwneud Cais" ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd gyda Llywodraeth Cymru, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru i gael mynediad at system ceisiadau ar-lein y Llywodraeth. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill y byddwch yn eu hanfon drwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais sy'n rhaid ei llenwi ar gyfer y swydd. Fel rhan o'ch cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV hefyd i adran "Rhesymau dros ymgeisio" y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut ydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl / swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Geirdaon

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â nhw i ofyn am eirda (geirda cyflogwr a geirda personol). Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn cysylltu â'r unigolion hyn.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	1 Chwefror 2021
Llunio rhestr fer:	2 - 4 Chwefror 2021
Cyfweliadau:	23 - 25 Chwefror 2021

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r "meini prawf sylfaenol" yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael gwarant o gyfweliad, e-bostiwch: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â Heledd Evans gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol neu rôl Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a'r Aelodau, cysylltwch ag:

Is-adran y Gymraeg
E-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i: https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 1 Chwefror 2021. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y pwynt hwn yn cael eu hystyried.

Atodiad A

Penodi Aelodau i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Fel Aelod o'r Cyngor, byddwch yn cyfrannu at y gwaith o weithredu strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* drwy gynghori a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru. Hefyd, bydd disgwyl i chi hyrwyddo'r strategaeth gyda'r sefydliadau a'r sectorau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Er mwyn i'r Cyngor Partneriaeth allu gweithredu'n effeithiol, bydd angen i'w Aelodau fod ag amrywiaeth eang o brofiadau mewn materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, o bob maes a sector yng Nghymru a hynny o bob cwr o'r wlad. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad canlynol:

- Gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.
- Bod yn gyfathrebwr effeithiol a pherswadiol, sy'n gallu gwneud cyfraniad perthnasol a phriodol mewn cyfarfodydd.
- Yn meddu ar ddealltwriaeth ac ymrwymiad clir i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Meini Prawf Hanfodol

Yn ogystal, bydd angen i Aelodau ddangos sut maent yn bodloni pob un o'r tri maen prawf canlynol:

- Bod â phrofiad a / neu wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ogystal ag arbenigedd mewn <u>un neu fwy</u> o'r meysydd canlynol:
    - Addysg
    - Cydraddoldeb
    - Cynllunio ieithyddol
    - Cynyddu defnydd iaith yn y gymuned a / neu yn y gweithle
    - Economi a byd busnes
    - Iechyd a gofal

- Marchnata neu dechnegau newid ymddygiad
- Seilwaith ieithyddol (gan gynnwys technoleg, corpws, geiriadura).

- Bod â phrofiad a / neu wybodaeth am o leiaf ddau o'r canlynol:

  - Cynllunio strategol a rheoli newid
  - Datblygu cyngor ynghylch polisi, a'r cyngor hwnnw'n gytbwys, ac yn seiliedig ar dystiolaeth
  - Dylanwadu ar eraill mewn sefydliad, gan gynnwys dylanwadu ar uwch-aelodau y sefydliad.

- Bod â phrofiad a / neu wybodaeth am y graddau y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio gan drigolion Cymru.

Yr iaith Gymraeg

Rydym eisiau denu chwe aelod sydd ag amrywiol brofiadau o faterion y Gymraeg.

Mae'n bwysig bod y Cyngor Partneriaeth yn cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd ac o bob rhan o Gymru, ac rydym felly'n croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg hyderus, siaradwyr newydd a'r rheini sydd ddim yn siarad yr iaith.

Rydym yn awyddus i ddenu aelodau o gymunedau sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd i ymuno â'r Cyngor Partneriaeth, boed yn siaradwyr newydd, neu'n bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol.

Cynhelir y cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i bedwar o'r chwech aelod newydd siarad Cymraeg yn hyderus, a bydd cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd yn ôl y galw.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:

O ganlyniad i COVID-19, caiff cyfarfodydd eu cynnal dros *Microsoft Teams* ar hyn o bryd. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal eto, a hynny ym Mae Caerdydd gan amlaf ond gallant fod mewn lleoliadau eraill hefyd ledled y wlad.

Ymrwymiad amser:

Bydd disgwyl i Aelodau fynychu o leiaf tri chyfarfod Cyngor Partneriaeth y flwyddyn – un ym mhob un o dymhorau'r Senedd. Bydd gofyn hefyd i Aelodau gyfrannu at ddatblygu gwaith y Cyngor Partneriaeth rhwng cyfarfodydd, er enghraifft, drwy gyfrannu at waith is-grwpiau neu grwpiau gorchwyl a gorffen yn ôl y galw. Hefyd, bydd disgwyl i aelodau hyrwyddo *Cymraeg 2050* gyda'r sefydliadau a'r sectorau y maent yn eu cynrychioli.

Hyd y penodiad:

Penodiad cychwynnol o dair blynedd gyda phosibilrwydd i ymestyn i ail dymor.

Cydnabyddiaeth:

Di-dâl, ond telir costau teithio a chynhaliaeth a threuliau rhesymol eraill.

Dyddiad cau:	1 Chwefror 2021
Llunio rhestr fer:	2 - 4 Chwefror 2021
Cyfweliadau:	23 - 25 Chwefror 2021

Y bwriad yw gwneud datganiad cyhoeddus am y penodiadau yn ystod mis Mawrth 2021.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Yn benodol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol a allai achosi embaras i Lywodraeth Cymru pe bai'n dod yn hysbys ar ôl iddynt gael eu penodi.

Gwrthdaro buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn y Cyngor Partneriaeth.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sydd wedi'i sifftio'n llwyddiannus i gyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid o reidrwydd wedi'i gyfyngu i chwiliadau cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau a ddaw o'r chwiliadau hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus.

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Cefndir

Sefydlwyd y Cyngor Partneriaeth cyntaf ym mis Ebrill 2012 er mwyn cefnogi'r Llywodraeth i weithredu'i strategaeth *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–2017* a'r set gyntaf o Safonau Iaith Gymraeg.

Cafodd strategaeth iaith Gymraeg gyfredol y Llywodraeth ei lansio yn ystod haf 2017 sef *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, law yn llaw â Rhaglen Waith ar gyfer 2017-21. Byddwn yn paratoi rhaglen waith newydd y flwyddyn nesaf er mwyn i'r llywodraeth nesaf barhau ar y daith tuag at y miliwn.

Rôl y Cyngor

Bydd y Cyngor Partneriaeth yn cyfrannu at y gwaith o weithredu strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* drwy gynghori a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru. Hefyd, bydd disgwyl i aelodau hyrwyddo'r strategaeth gyda'r sefydliadau a'r sectorau y maent yn eu cynrychioli.

Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Aelodaeth

Nid yw Mesur y Gymraeg 2011 yn pennu maint y Cyngor Partneriaeth, fodd bynnag, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cyfarfodydd, mae aelodaeth yn debygol o gynnwys uchafswm o 12 unigolyn, ac eithrio'r Cadeirydd.

Cadeirydd

Caiff y Cyngor Partneriaeth ei gadeirio gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

Ysgrifenyddiaeth

Bydd Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r Cyngor Partneriaeth.

Telerau Penodi

Gwneir penodiadau gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. O gael cynnig a derbyn y penodiad, bydd Aelodau'r Cyngor Partneriaeth yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau a nodir yn y llythyr penodi.

Hyd y Penodiad

Yn y lle cyntaf, bydd Aelodau'n cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd. Yn amodol ar adolygiad boddhaol, gall fod yn bosibl adnewyddu'r aelodaeth am dair blynedd arall.

Ymrwymiad amser

Bydd disgwyl i Aelodau fynychu o leiaf tri chyfarfod Cyngor Partneriaeth y flwyddyn – un ym mhob un o dymhorau'r Senedd. Bydd gofyn hefyd i Aelodau gyfrannu at ddatblygu gwaith y Cyngor Partneriaeth rhwng cyfarfodydd, er enghraifft, drwy gyfrannu at waith is-grwpiau neu grwpiau gorchwyl a gorffen yn ôl y galw. Hefyd, bydd disgwyl i aelodau hyrwyddo *Cymraeg 2050* gyda'r sefydliadau a'r sectorau y maent yn eu cynrychioli.

Lleoliad y cyfarfodydd

O ganlyniad i COVID-19, caiff cyfarfodydd eu cynnal dros *Microsoft Teams* ar hyn o bryd. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal eto, a hynny ym Mae Caerdydd gan amlaf ond gallant fod mewn lleoliadau eraill hefyd ledled y wlad.

Cydnabyddiaeth

Nid yw Aelodau'r Cyngor Partneriaeth yn gyflogeion Llywodraeth Cymru a byddant yn gwasanaethu'n wirfoddol, yn ddi-dâl.

Gall costau teithio a threuliau rhesymol eraill a allai godi wrth gyflawni gwaith y Cyngor Partneriaeth gael eu hawlio gan Is-adran y Gymraeg o fewn y terfynau cydnabyddedig.

Gall Aelodau hefyd fod yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau mewn perthynas â gofal plant / gofal yr henoed / gofalwr cynorthwyol, tra'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor Partneriaeth.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gymraeg (Llywodraeth Cymru) a bydd hefyd yn cynnwys Jeremy Evas, Pennaeth Prosiect 2050 (Llywodraeth Cymru) ac Aled Eirug fel Aelod Panel Annibynnol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei gyflwyno i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w hystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu rhwng 2-4 Chwefror 2021 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad rhwng 23-25 Chwefror 2021. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau drwy gyfrwng meddalwedd *Microsoft Teams*.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r union ddyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os bydd mwy na chwe ymgeisydd yn gymwys i gael eu penodi, mae'n bosibl y byddwn yn cadw manylion yr ymgeiswyr cymwys nas penodir ar restr wrth gefn am hyd at 12 mis.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o

amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Heledd Evans: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.